# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Iau, 7 Mawrth 2019 |
| Amser: | 10.00 am |
| Bresennol: | Cynghorwyr J Guy (Cadeirydd), M Al-Nuaimi, G Berry, C Evans and C Ferris<br><br>Liz Blayney (Rheolwr Craffu a Llywodraethu) and Lisa Davies (Swyddog Llywodraethu) |
| Yn bresennol: | |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr M Evans, L Lacey and K Thomas |

1 **Datganiadau o Fuddiant**

Dim

2 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2019**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2019 fel rhai cywir.

3 **Adolygiad Gwasanaeth Gwastraff**

Yn bresennol:
- Gareth Jones, Arweinydd Swyddfa Archwilio Cymru
- Paul Jones, Pennaeth Strydwedd a Gwasanaethau'r Ddinas
- Silvia Gonzalez-Lopez Rheolwr Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau
- Cynghorydd Roger Jeavons, Aelod Cabinet dros Strydwedd a Gwasanaethau'r Ddinas

Rhoddodd Arweinydd Swyddfa Archwilio Cymru drosolwg byr i'r Pwyllgor ac amlygu'r ardaloedd allweddol i'w hystyried. Casgliad yr adolygiad dilynol oedd bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd wrth ymdrin â rhai o gynigion Swyddfa Archwilio Cymru am wella, ond nad oedd cyfeiriad strategol o hyd er mwyn sicrhau gwell deilliannau cynaliadwy.
Gofynnodd Aelodau y canlynol:

- Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor i Bennaeth Gwasanaethau'r Ddinas a oedd yn derbyn canfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Cadarnhaodd y Swyddogion fod rhai o ganfyddiadau'r adroddiad wedi eu hanelu at lefel gorfforaethol, a bod a wnelo rhai o'r materion â'r bwrdd gwastraff.

- Gofynnodd yr Aelodau i'r Swyddogion gadarnhau a oeddent wedi cyhoeddi strategaeth gwastraff ai peidio. Esboniodd y Swyddogion fod gwaith maes yr adolygiad wedi ei gynnal 6 mis yn ôl, a bod canlyniadau'r adolygiad wedi

eu cyflwyno i'r Aelod Cabinet yn ddiweddar. Yr oedd yr Aelod Cabinet wedi gwneud y penderfyniadau allweddol i roi cyfeiriad strategol i'r Strategaeth Gwastraff a bod deilliannau allweddol argymhellion y Grŵp Adolygu Polisi yn cael eu hystyried fel rhan o wneud y penderfyniadau hyn.

- Teimlai Aelod mai addysg oedd y prif fecanwaith i gynyddu ailgylchu yn yr Awdurdod, a gofynnodd i'r Swyddogion a allai'r Strategaeth Gwastraff gynnwys addysg ailgylchu, gan gychwyn yn yr ysgolion fel rhan bwysig. Cadarnhaodd y Swyddogion fod ymwneud ag ysgolion yn digwydd. Nid oedd tystiolaeth i awgrymu mai addysg yn unig fyddai'n cynyddu ailgylchu heb gyfyngau ar swm y gwastraff tirlenwi y gellid ei gasglu. Mae gan Gasnewydd gyfradd o 60% o ailgylchu ac y mae wedi cymryd camau allweddol i sicrhau bod y ffigwr hwn yn cynyddu yn unol â'r newidiadau sydd eu hangen i gwrdd â thargedau Cynulliad Cymru.

- Mynegodd Aelod bryderon am ailgylchu bwyd, gan gyfeirio at yr adroddiad. Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion gadarnhau pa broblemau oedd yn wynebu'r awdurdod o ran gwastraff bwyd. Cadarnhaodd y Swyddog fod ailgylchu bwyd yn weddol isel, ond fod yr Awdurdod yn ddiweddar wedi rhedeg ymgyrch ym Mhapur Materion Casnewydd, yn ategu pwysigrwydd ailgylchu, oedd yn cynnwys ailgylchu bwyd.

- Holodd yr Aelodau am y berthynas rhwng yr Awdurdod a Wastesavers, gan ofyn am gadarnhad am lefel y cyfathrebu rhwng y sefydliadau, pa mor aml yr oedd adroddiadau'n cael eu rhoi a'u herio. Esboniodd y Swyddogion fod gan yr Awdurdod berthynas contract gwasanaeth da gyda Wastesavers, gan gyfathrebu'n ddyddiol, cynnal cyfarfodydd bob mis i ddadansoddi nifer tunelli gwastraff, a thrafod dangosyddion perfformiad allweddol.

- Mynegodd Aelod bryder am y ffaith y gallai'r Awdurdod ddirwyo trigolion am beidio â chydymffurfio. Gofynnodd yr Aelodau hefyd a oedd y targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn realistig. Cadarnhaodd y Swyddogion mai dewis olaf fyddai dirwyon, y byddai haenau i'r system, ac y byddai'n cael ei defnyddio yn unig ar gyfer trigolion oedd yn gwrthod dro ar ôl tro ag ailgylchu. Cadarnhaodd y Swyddogion hefyd fod telerau'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru oedd y targedau seiliedig ar Un Gymru Un Blaned.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a'r Aelod Cabinet am fod yn bresennol.

**Casgliad – Sylwadau i'r Cabinet**

Nododd y Pwyllgor y cynnydd oedd yn cael ei wneud o ran y Strategaeth Gwastraff ac wrth ymdrin â'r materion a godwyd yn yr Adroddiad Archwilio.

Teimlai'r Pwyllgor fod angen i'r Awdurdod sefydlu dogfen Strategaeth Gwastraff glir, a chynllun gweithredu cysylltiedig er mwyn cyrraedd y nodau strategol. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Swyddogion gadarnhau a fyddai dogfen Strategaeth Gwastraff yn cael ei chreu, a phryd y byddai'r fersiwn derfynol yn debyg o fod ar gael.

Gofynnodd y Pwyllgor am i'r Strategaeth Gwastraff gael ei dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Craffu unwaith iddi fod ar ei ffurf derfynol.

Cytunodd y Pwyllgor i anfon y sylwadau hyn ymlaen at yr Aelod Cabinet – Strydwedd, a'r swyddogion perthnasol i'w hystyried.
Nododd y Pwyllgor nad oedd rôl monitro perfformiad gweithredu'r strategaeth, a'r argymhellion yn adroddiad SAC o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor. Byddai monitro yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad – Lle a Chorfforaethol i'w gynnwys yn eu rhaglen waith am y flwyddyn nesaf fel sy'n briodol, i osgoi dyblygu gwaith.

4 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Yn bresennol

- Elizabeth Blayney – Rheolwr Craffu a Llywodraethiant

**a) Cyfoesiad y Blaen-Raglen Waith**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y Blaen-Raglen Waith, a hysbysu'r Pwyllgor am y pynciau fyddai'n cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor:

**18 Ebrill 2019**, yr eitemau ar yr agenda;

- Adfywio Economaidd
- Diogelu Corfforaethol

Amlinellodd y Rheolwr Craffu a Llywodraethiant y newidiadau i'r rhaglen waith y cytunodd y Pwyllgor arnynt eisoes. Byddai Diogelu Corfforaethol yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwn, ond yr oedd y cadeirydd wedi cytuno i ohirio, er mwyn gwneud newidiadau i'r adroddiad.
Adfywio Economaidd - byddai'r Pwyllgor yn awr yn derbyn Adolygiad gan SAC o Adfywio Economaidd cyn adolygu'r strategaeth.
Cymeradwyodd y Pwyllgor y rhaglen waith a gyfoeswyd.

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified